

TRRS4010C – IDDEWIAETH A CHRISTNOGAETH

4. CRISTNOGAETH A'R FERCH

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, newidiodd llawer ar agweddau cymdeithasol a chyfreithiol ac o ganlyniad caniatwyd i ferched chwarae rhan gyflawn ym mywyd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Cyn yr ugeinfed ganrif, cyfyngwyd y cyfraniad y gallai merched gyflawni yn y gymdeithas i'r cartref ac i'r bywyd teuluaid. Trwy gydol hanes, tueddwyd ystyried y ferch fel bod is-radd, yn wan ac yn ddiymgeledd, heb y gallu i ymgymryd â gwaith corfforol neu gyflawni tasgau deallusol. Er i'r agwedd hon gael ei hystyried yn ganlyniad i *natur*, yn ystod yr ugeinfed ganrif deuai'n eglur mai canlyniad i rymoedd cymdeithasol oeddent, ac yn aml fe'u cefnogwyd gan ddysgeidiaeth grefyddol. O ganlyniad, dadleuwyd bod yr eglwys Gristnogol, ei hathrawiaeth a'r ffordd yr arferai ei ffydd, yn batriarchaidd ac yn rhywiaethol. Deuai'r mudiad ffeministaidd yn amlwg er mwyn dadlau o blaid ryddhad i ferched ac i weithio er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddau ryw; datblygai diwinyddiaeth ffeministaidd er mwyn rhoi llais i anghenion crefyddol ac ysbrydol y ferch.

Rhywiaeth a Phatriarchiaeth

'Rhywiaeth' yw'r 'rhagfarn yn erbyn rhywun, merched yn arbennig, ar sail eu rhyw'. 'Ffurf ar drefniant cymdeithasol neu lywodraeth lle mae dynion yn rheoli, ac olrheinir tras teuluol drwy'r llinach gwrywaidd' yw Patriarchiaeth. Yn nhyb Janet Martin Soskice, 'nid rhywbeth sydd yn niweidio teimladau merched mo rywiaeth, mae'n rhywbeth sydd yn lladd miliynau ar filiynau ar filiynau o ferched a gwagedd bob blwyddyn',¹ ac mae'n nodi tystiolaeth a ddengys fod hyd at 100 miliwn o ferched a gwagedd yn marw bob blwyddyn am i'r un gofal meddygol, bwyd, gwasanaethau cymdeithasol ag y derbynnir dynion a bechgyn yn cael eu gwahardd rhagddynt. 'Lle bo rhywbeth, mae bechgyn a dynion yn ei gael gyntaf'.²

Yr ymateb cywir i'r sefyllfa hon, yn ôl y ffeministiaid yw 'dicter'. Efallai bod Mary Daly (1928-2010), a oedd yn arloesydd yn hanes datblygiad diwinyddiaeth ffeministaidd, yn cynrychioli'r dicter hwn orau yn y ffordd y mae'n hybu i ferched 'gynddeiriogi' ac i ystyried dynion yn ddaemonaidd nad oes lle amdanynt yn yr iwtopia ffeministaidd. Yn nhyb Daly, rhywiaeth sydd yn gysail i bob drygioni yw rhywiaeth. 'When will they understand?' y mae'n gofyn yn bryfoclyd, 'it is rapism that has spawned racism. It is gynocide that gives rise to genocide'.³

¹ Janet Martin Soskice, 'Response to Elizabeth Moltmann-Wendel', yn Hilary D. Regan ac iain Torrance (goln), *Christ and Context: Confrontation Between Gospel and Culture* (Caeredin: T & T Clark, 1993), t. 118.

² Soskice, 'Response to Elizabeth Moltmann-Wendel', t. 117.

³ Mary Daly, *Beyond God the Father: Toward a Philosophy of Women's Liberation* (Boston, MA: Beacon Press, 1974), t. 193; hefyd, t. 190.

Bwriad rhethreg Daly oedd i fynnu mai cynsail pob trais (trais yn erbyn y ferch; hil-laddiad) yw'r ymraniad rhwng merched a dynion, lle myn dynion gael awdurdod a grym, a statws uwch, dros ferched (mae'r gair 'gynocide' – a luniwyd gan Daly – yn tarddu o'r gair Groegaidd γυνή [gunē] sydd yn golygu'r 'ferch', felly ystyr y gair yw 'lladd y rhyw fenywaidd'). Cred diwinydd ffeministaidd arall, sef Rosemary Radford Ruether (g. 1936), fod pob merch i ymgymryd â'r 'daith dicter' er mwyn symud o'r rhywiaeth sydd yn rhemp yn y gymdeithas orllewinol.⁴ Oherwydd ei radicaliaeth, daeth Mary Daly i wrthdaro â'i chyflogwyr, Coleg Boston (sydd yn sefydliad Jeswitaidd) lle dysgodd diwinyddiaeth, moeseg ac astudiaethau merched rhwng 1967 a 1999. Gwrthododd caniatáu i fyfyrwyr gwrywaidd fynychu ei darlithoedd. Yn nhyb gan awdurdodau'r Coleg, torrodd hyn Gyfraith Ffederal yr Unol Daleithiau sydd yn mynnu na ddylid gwadu addysg i neb ar seiliau rhywiol. Yn hytrach na dysgu myfyrwyr gwrywaidd, dechreuodd Daly i'w habsennoli ei hun o'i darlithoedd, ac arweiniodd hyn at benderfyniad awdurdodau'r Coleg i dynnu ei 'deiliadaeth' (tenure) yn ôl, ac yn y diwedd 'ymddeolodd' Daly o'i swydd wedi iddi gytuno taliad terfynol gan y Coleg yn 1999. Gwrthododd Daly alwadau am gydraddoldeb rhwng dynion a merched. Dadleuodd y dylai merched lywodraethu dros ddynion a byddai'r broses o esblygu yn arwain at 'ddadlygriad' o'r blaned er mwyn iddo oroesi. Ystyr hyn oedd 'gostyngiad drastig' yn y nifer o ddynion.⁵

Nid yw Rosemary Radford Ruether yn feddyliwr radicalaidd tebyg i Daly. Mae wedi cadw ei chysylltiad â'r Eglwys Gatholig gan gredu y gellir diwygio'r Eglwys o'r tu mewn iddi. Wedi dweud hynny, mae wedi dadlau'n gryf fod yn rhaid i ffydd gymryd profiadau merched o ddifrif ac o ganlyniad mae'n gweld diwinyddiaeth fel tasg syncretistig. Cred y dylai groesawu unrhyw fewnwelediad i'r bywyd ysbrydol o bob athroniaeth a chrefydd. Cred hefyd fod angen i ferched sefydlu eu fforymau eu hun er mwyn hybu eu cynnydd ysbrydol. Mae'n cefnogi'r syniad o 'siofiniaeth fenywaidd' a 'ffafiaeth gadarnhaol' er mwyn sicrhau cydbwysedd cymdeithasol nad yw'n bosibl mewn cymdeithas a grewyd gan batriarchiaeth.

Y Traddodiad Cristnogol

Mae ffeministiaid wedi enwi'r traddodiad Cristnogol fel un o'r dylanwadau sydd wedi sefydlu rhywiaeth a phatriarchiaeth yn y diwylliant gorllewinol. Mae'r problemau'n dechrau gyda'r Beibl. Mae'r ddysgeidiaeth, a welir yn Genesis 2, fod Efa wedi idlio i brofedigaeth y sarff ac wedi bwyta o ffrwyth y coeden a waherddwyd, yn arwain at y ddysgeidiaeth mai merched a achosodd 'Cwyp' y ddynoliaeth o ras Duw, ac felly hwy oedd yn gyfrifol am ddod â marwolaeth i'r

⁴ Rosemary Radford Ruether, *Sexism and God Talk: Toward a Feminist Theology* (Llundain: SCM, 1983), t. 188.

⁵ Susan Bridle, 'No Man's Land', yn *Enlightenment Magazine* (Gaeaf, 1999).

greadigaeth, a chawsant eu labelu'n demptwagedd a ddylai gael eu rheoli gan ddynion. Dyna beth sydd y tu ôl i'r ffordd y mae Tertulianus (160-220) yn cyfarch y ferch: 'You are the devil's gateway. You are the unsealer of the forbidden tree. You are the first deserter of divine law – you destroyed so early God's image, man. On account of your desire, that is death, even the son of God had to die'.⁶ Pe bu farw Iesu Grist er mwyn achub y ddynoliaeth o'i phechod, a daeth pechod i'r byd drwy anufudd-dod Efa, yna Efa (a'i merched, sef pob merch) yn gyfrifol am farwolaeth Iesu ar y groes.

Ochr yn ochr â hyn, ceisiodd Tadau'r Eglwys dynnu gwahaniaethau rhwng dynion a merched ar gynseiliau diwinyddol. Yn ôl Ioan Eurfyn (Chrysostom, 347-407) gellid cysylltu hyn â'r ddysgeidiaeth fod y ddynolryw, yn wahanol i greaduriaid eraill, wedi cael ei chreu ar lun a delw Duw (Genesis 1:27), ond yn ôl ei ddehongliad, ac yn wahanol i'r adnodau Beiblaidd, nad oedd hyn yn wir ond am ddynion: 'Then why is the man said to be in the "image of God" and the woman not? Because "image" has rather to do with authority, and this only the man has; the woman has it no longer'.⁷ Yn nhyb Ioan Eurfyn, felly, collodd y ferch lun a delw Duw oherwydd ei hanufudd-dod. Felly nid oedd modd i unrhyw ferch gael awdurdod yn y gymdeithas ond, yn hytrach, roeddent i ildio i awdurdod dynion oherwydd seilir awdurdod dynol yn y ddelw o Dduw sydd yn dal arnynt (ond sydd wedi diflannu o'r ferch oherwydd anufudd-dod Efa). Gellir gweld dysgeidiaeth debyg yng ngwaith Ambrosiaster (sef ffugenw awdur testunau ac esboniadau Lladin a gysylltir ag Emrys o Milan, 337-397): 'For how can it be said of woman that she is in the image of God when she is demonstrably subject to male dominion and has no authority? For she can neither teach nor be a witness in a court nor take an oath nor be a judge'.⁸

Gellir dadlau bod hyn yn seiliedig yn yr esboniad o adnodau Beiblaidd penodol. Er bod Paul yn mynnu yn Galatiaid 3:28 'Nid oes rhagor rhwng iddew a Groegwr, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chi oll yng Nghrist Iesu', mewn gwirionedd mae'n cefnogi gwahaniaethau cymdeithasol rhwng dynion a merched. Er enghraifft:

Ond yr wyf am ichwi wybod mai pen pob gŵr yw Crist, ac mai pen y wraig yw pob gŵr, ac mai pen Crist yw Duw (1 Corinthiaid 11:3).

⁶ Brian Wren, *What Language Shall I Borrow? God Talk in Worship: A Male Response to Feminist Theology* (Llundain: SCM, 1995), t. 24.

⁷ Janet Martin Soskice, 'Can a Feminist Call God Father?', in Alvin F. Kimel (gol.), *Speaking the Christian God: The Holy Trinity and the Challenge of Feminism* (Grand Rapids, MN: Eerdmans, 1992), t. 85.

⁸ Soskice, 'Can a Feminist Call God Father?', t. 85.

Yn ôl y drefn ym mhob un o eglwysi'r saint, dylai'r gwagedd fod yn ddistaw yn yr eglwysi, oherwydd ni chaniateir iddynt lefaru. Dylent fod yn ddarostyngedig, fel y mae'r Gyfraith hefyd yn dweud Os ydynt am gael gwybod rhywbeth, dylent ofyn i'w gwŷr eu hunain yn y tŷ, oherwydd peth anwedus yw i wraig lefaru yn y gynulleidfa (1 Corinthisiaid 14:33-35).

Ac nid wyf yn caniatáu i wragedd hyfforddi, nac awdurdodi ar y gwŷr; eu lle hwy yw bod yn ddistaw (1 Timotheus 2:12).

Mae ffeministiaid wedi dadlau bod darlleniadau fel hyn wedi arwain at wahardd merched rhag bod yn arweinwyr yn yr eglwys ac, oherwydd mai'r eglwys oedd yn gyfrifol am ail-godi cymdeithas Ewrop ar ôl cwmp yr Ymherodraeth Rufeinig, mae wedi arwain at wahardd merched rhag cyfrannu at fywyd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd hefyd.

Gellir tynnu rhywfaint o dystiolaeth i gefnogi'r ddadl hon o'r dadleuon diweddar ynghylch dilysrwydd cysegru merched yn esgobion. Er bod pob eglwys Anglicanaidd yn y byd wedi cytuno y gellir cysegru merched yn esgobion, mae eglwysi sagrafennol eraill – megis Eglwysi Uniongred Dwyreiniol a'r Eglwys Gatholig Rufeinig – wedi gwrthod yn llwyr i ystyried ordeinio merched yn offeiriaid hyd yn oed. Mae eu dadl yn sagrafennol ac yn draddodiadol: credent fod yr offeiriad yn 'ficar' (o'r Lladin, *vicare*, gyda'r ystyr 'dirprwy', neu un sydd yn dod yn lle rhywun arall) i Grist ar y ddaear a dim ond dynion all gynrychioli Crist am ei fod yn wryw. Maent hefyd yn dadlau nad yw'r Testament Newydd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at ferch ymhlith y disgyblion a'r apostolion. Mae eglwysi ceidwadol, Efengylaidd, hefyd yn gwrthod derbyn merched yn arweinwyr neu mewn swyddi o awdurdod. Fel arfer, mae eu dadleuon yn seiliedig ar ddyfyniadau o'r Ysgrhythrau, megis yr adnodau a ddyfynwyd uchod, sydd yn awgrymu, ar y wyneb, trefn natur, ordeiniedig gan Dduw, lle mae dynion yn cael awdurdod dros ferched.

O ganlyniad, mae'r Beibl, a'r traddodiad Cristnogol, yn cael eu hystyried yn gefnogwyr i rywiaeth ac i batriarchiaeth. Mae'r Beibl yn awgrymu bod creu'r ferch yn ddeiliadol o greu'r dyn; yn Genesis 2, creuir Adda gan Dduw allan o ludw'r ddaear a chreuir Efa allan o un o asennau Adda. Ar ben hynny, ildiodd Efa i bechod o flaen Adda, ac felly collodd lun a delw Duw a'r awdurdod sydd yn mynd llaw yn llaw â hynny. Cefnogodd adnodau'r Testament Newydd, debyg i'r sawl a ddyfynwyd uchod, na ddylai'r ferch gael unrhyw swyddogaeth o awdurdod yn yr eglwys na yn y gymdeithas. A chefnogir hyn oll, yn ôl ffeministiaid, gan y defnydd o ddelweddaeth wrywaidd i lefaru am, ac wrth, Dduw. Mae litwrgi'r eglwys yn draddodiadol yn cyfeirio at Dduw fel 'Ef'; mae'n 'Dad', yn 'Fab', yn 'Frenin', yn 'Arglwydd', yn 'Farnwr', yn 'Feistr'. Er bod Duw yn 'ddi-ryw' yn ddiwinyddol, heb feddu ar naill ai gwrywdod na benywaidd-dra

(gan eu bod yn rhan o'r drefn greedig), mae'r defnydd braidd yn gyfyngedig o eiriau a delweddath wrywaidd yn tueddu at hybu'r syniad fod Duw yn wryw ac felly bod dynion yn agosach at y dwyfol ac wedi cael eu penodi gan Dduw i gael awdurdod yn y byd.

Yr Ymateb Ffeministaidd

Yn y bôn, mudiad cydraddoldeb yw ffeministiaeth yn ceisio sicrhau bod merched a dynion yn derbyn triniaeth deg a chyfiawn yn y byd, a bod y ddau yn cael eu trin yn gyfartal. Yn eu tyb, mae rhywiaeth yn dirdynnu dynoliaeth wrywaidd yn ogystal â benywaidd. Mae patriarchiaeth yn arwain at ddioddefaint merched, ond mae'n arwain hefyd at hunan-ddinistriad i ddynion ac yn bygwth ar fodolaeth bywyd a'r blaned ei hun.⁹ O ganlyniad, geilw ffeministiaid ar ddynion i gydnabod yr hyn y mae i fod yn wryw ac i roi'r gorau i'w hysbryd cystadleuol, meddiangar a dominyddol, tra bod merched i ddysgu o'r newydd yr hyn y mae i fod yn fenyw yn hytrach na derbyn y diffiniad ohoni a wrthiwyd arnynt gan ddynion.

Mae diwinyddiaeth ffeministaidd yn cefnogi'r agwedd hon drwy edrych ar yr ysbrydol, y dwyfol, y metaffisegol, y real o safbwynt y ferch.¹⁰ Y cynsail canolog i ddiwinyddiaeth ffeministaidd yw bod diwinyddiaeth yn trin profiad crefyddol. Gan fod profiad (a'r dehongliad ohono), ym mha ffurf bynnag, yn gategori dynol, yna mae profiad pobl wahanol yn wahanol i'w gilydd; er bod tebygrwydd rhyngddynt, maent bron yn unigryw i'r un sydd wedi cael y profiad. Mewn geiriau eraill, mae profiad dyn a phrofiad merch, o angenrheidrwydd, yn wahanol i'w gilydd. Dadleua diwinyddion ffeministaidd fod y traddodiad Cristnogol a'i ddiwinyddiaeth wedi cael eu llunio gan ddynion. Fe'u lluniwyd o safbwynt profiadau dynion, gan ddynion, ar gyfer dynion. Pan fydd merched yn diwinydda, felly y dadleuir, cyrhaeddent gasgliadau gwahanol. Yn ddiweddar, mae ffeministiaid wedi cydnabod na fydd pob merch yn cael yr un brofiad gan fod profiad yn dibynnu hefyd ar agweddau ar gyd-destun yr un sydd yn cael y profiad. Mae merched Affro-Americanaidd (er enghraifft) yn dioddef anghyfiawnder hiliaeth ac, fel arfer, tlodi (y maent ymhlith y tlotaf yn y gymdeithas Americanaidd) yn ogystal â chael eu gormesu gan rywiaeth. O ganlyniad i hyn, mae 'diwinyddiaeth wreicyddol' wedi ei sefydlu fel rhan o ddiwinyddiaeth ffeministaidd sydd yn trin pryderon y grŵp penodol hwn. Gwrthododd llawer â diwinyddiaeth ffeministaidd gan honni ei bod yn academiaidd ac yn ddeallusol, ac felly ei bod yn perthyn cymaint i'r merched o'r dosbarth canol fod merched o'r dosbarth gweithio yn dal i gael eu hanwybyddu.

⁹ Ruether, *Sexism and God Talk*, t. 178.

¹⁰ Daly, *Beyond God the Father*, t. 189.

Tuedda beirniadaeth ffeministaidd o Gristnogaeth yn bennaf i drafod y ffordd y mae llefaru am Dduw, oherwydd y defnydd cyfyngedig o dermau a delweddau gwrywaidd, wedi bod yn gyfrifol am batriarchiaeth a rhywiaeth. Ar ei mwyaf eithafol, gwelir y feirniadeth hon yng ngeiriau Mary Daly, un o'r mwyaf radicalaidd ymhlith diwinyddion ffeministaidd, mai 'os yw Duw yn wryw, yna mae'r gwryw yn Dduw'.

Diwinyddiaeth Ffeministaidd: Prif Nodweddion

Mae diwinyddion ffeministaidd wedi tynnu sylw at nerth iaith a symbolau crefyddol i hybu ac i gyfleu negeseuon cudd ac i gefnogi'r status quo. Mae galw Duw yn Dad, yn frenin, neu'n farnwr, fel sydd wedi digwydd yn hanes yr Eglwys Gristnogol, wedi dylanwadu'n fawr ar bobl yn seicolegol gyda'r canlyniad eu bod yn credu mai dyn, a'r rôl ddynol, sydd bwysicaf a'r ferch yn fod is-radd. Yn nhyb y ffeministaidd, mae hyn yn wir am y gair 'Duw' hefyd, sydd, wedi'r cwbl, yn ffordd wrywaidd i enwi'r dwyfol. O ganlyniad, awgryma Elizabeth Schüssler Fiorenza y term G*D, tra bod Rosemary Radford Ruether yn awgrymu Duw/ies. Awgryma Ruether fod hyn yn cynrychioli 'dwyfoldeb cyflawnach' lle bo'r ffurfiau gwrywaidd a benywaidd ar y gair yn cyfrannu heb effeithio ar undeb y duwdod. Felly mae Ruether yn pwysleisio natur ryfedd ac annirnadwy y realaeth y mae diwinyddiaeth yn ei thrafod.

This term is unpronounceable and inadequate. It is not intended as language for worship, where one might prefer a more corrective term, such as Holy One, or Holy Wisdom. Rather it serves here as an analytic sign to point toward that yet unnamable understanding of the divine that would transcend patriarchal imitations and signal redemptive experience for women as well as men.¹¹

Mae diwinyddion ffeministaidd yn honni bod eu gwaith yn rhyddhau, yn pwysleisio perthynas, ac yn gynhwysol.

Rhyddhad

Mae diwinyddiaethau rhyddhad, a ddatblygodd gyntaf yn America Ladin ond sydd bellach wedi cynyddu mewn mannau eraill y byd, yn seiliedig ar yr egwyddor fod Duw o blaid y tlawd. Ond mae'r 'tlawd' wedi dod yn derm technegol yn cynrychioli unrhyw un sydd wedi cael eu gwahardd gan gyfundrefnoedd gymdeithas-wleidyddol ac economaidd. Mae diwinyddiaeth ffeministaidd yn perthyn i'r syniadaeth hon oherwydd bod cyfundrefnoedd led-led y byd – gweddillion patriarchiaeth – yn cau merched allan ac yn eu gormesu

¹¹ Ruether, *Sexism and God Talk*, t. 46.

oherwydd eu rhyw. Mae'r rhywiaeth hon yn gwaethygu dan ddylanwad ffactorau diwylliannol eraill mewn mannau amrywiol y byd. Yn y ffordd hon, mae tlodi economaidd, gogwydd rhywiol, lliw croen a hil yn cydgynllwynio i sicrhau bod merched yn cael eu gormesu'n ddeublyg neu'n driphlyg. Mae rhyddhad y ferch yn dechrau gyda'r haerriad fod Duw yn sefyll gyda'r sawl sydd yn dioddef yn y gymdeithas neu sydd wedi cael eu gyrru at ei chyrion.

Cynhwysol

Seilir diwinyddiaeth ffeministaidd yn y gysail fod diwinyddiaeth yn codi allan o fyfyrddod ar brofiad crefyddol. Mae'r profiad crefyddol hwn yn gyffredinol. Yn ôl Rosemary Radford Ruether, yn sôn amdano mewn ffordd ychydig yn wahanol, gellir negyddu'r honiadau unigryw sydd gan Gristnogaeth. Nid yw Duw, meddai, wedi llefaru 'unwaith ac am byth' drwy hil benodol (yr Hebreaid) ac mewn cyfnod penodol (Palesteina'r ganrif gyntaf OC). Yn ogystal, mae'n gwrthod yr honiad nad yw Duw ond yn llefaru â dynion ac felly yn llefaru'n unigryw drwy draddodiadau ac athrawiaethau Cristnogaeth, sef y cyfundrefnu (gan ddynion) o'r profiad (gwrywaidd) hwnnw. Yn hytrach, gellir dirnad Duw ym mhob man, ar bob adeg, gan bawb. Er bod y profiad hwn yn gyffredinol, mae y tu hwnt i ddiffiniad oherwydd ei fod yn anochel yn bersonol ac yn unigol, ond dyna beth mae diwinyddiaeth yn ceisio deall a mynegi.

Mewn ffordd graff, mae Ruether yn gwrthwynebu unrhyw gyfundrefn sydd yn peri i un grŵp gael eu gyrru i gyrrion cymdeithas ac felly sydd yn cael ei ddarostwng neu ei anwybyddu gan eraill. Pan ddigwydd hyn, meddai, mae'n effeithio ar bawb. O ganlyniad, mae'n rhaid brwydro yn erbyn siofaniaeth ym mhob ffurf ohoni. Yn ôl Ruether, mae'n rhaid gwrthod androganoliaeth (androcentricism), sef y syniad bod norm (boed yn orllewinwyr croenwyn, Cristnogion, y breintiedig neu, yn fwy penodol, dynion) a mabwysiadu ffyrdd o fyw sydd yn fwy 'cyfannol' (holistic). Mae'n rhaid hefyd gwrthod 'dynolrywganoliaeth' (humanocentricism) lle mae bodau dynol yn credu eu bod yn bwysicach nag unrhyw ran arall o'r greadigaeth.¹² Yn y ffordd hon, gellir arwain bodau dynol i fuchedd sydd yn fwy eco-gyfeillgar ac bydd yn helpu achub y planed rhag trychineb ecolegol

Perthynoliaeth

Yn nhyb Celia Deane-Drummond, mae diwinyddiaeth ffeministaidd, o bob rhan o'r byd, yn seiliedig ar bwyslais perthnasau a'r awydd am fywyd cymunedol cyfiawn: 'The experience of life of ordinary women is commonly that dedicated

¹² Ruether, *Sexism and God Talk*, t.20.

to sustaining relationships within the family unit. In other words, self-determination is found within the context of relationships'.¹³

Casgliadau

Mae diwinyddiaeth ffeministaidd yn herio Cristnogaeth yn rymus mewn dwy ffordd. Mae a wnelo cwestiwn sylfaenol ffeministiaeth â natur foesegol Cristnogaeth. A yw'n bosibl i Gristnogaeth barhau os ydyw'n hybu rhywiaeth a phatriarchiaeth? Mae rhai ffeministiaid yn ateb y cwestiwn yn negyddol ac maent wedi gadael yr eglwys o ganlyniad. Mae a wnelo'r ail her â'r cwestiwn a yw Cristnogaeth yn wir? Yn ôl rhai ffeministiaid, mae Cristnogaeth yn sefyll dros wirioneddau dwys ac o ganlyniad mae'n rhaid diwygio Cristnogaeth er mwyn hybu ei gwirionedd tra hefyd yn dileu ei feddiant o rywiaeth (Rosemary Radford Ruether, Janet Martin Soskice). I eraill, mae'r ffaith fod Cristnogaeth yn meddu'n anfoesegol ar rywiaeth yn golygu na all fod yn wir mewn unrhyw ffordd (Mary Daly, Daphne Hampson).

¹³ Celia Deane-Drummond, *A Handbook in Theology and Ecology* (Llundain: SCM, 1996), t. 56.